

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Treganna: CO20029 - Ysgol Gynradd Radnor - Gwelliannau i'r Priffyrdd.

Adroddiad am yr Ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 27/11/2020 a 19/12/2020. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan fo modd.

Nod y prosiect yw creu amgylchedd priffyrdd mwy diogel trwy leihau cyflymder cerbydau a gwella cyfleusterau i gerddwyr. Bydd y gwelliannau hyn o fudd i symudiadau cerddwyr ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer teithio llesol.

Ystyr **teithio llesol** yw cerdded a beicio yn hytrach na defnyddio cludiant moduraidd at ddibenion teithio bob dydd.

Gwaith arfaethedig:

- Lleihau cyflymder cerbydau drwy osod cyffordd ar fwrdd arafu ar gyffordd Romilly Place, Pembroke Road a Radnor Road.
- Adeiladu croesfan sebra ar fwrdd arafu ar Pembroke Road.
- Newid y Gorchymyn Rheoliadau Traffig cyfyngiadau parcio cyfredol ar Cardigan Street a chyffordd Pembroke Road-Radnor Road i wella diogelwch cerddwyr.
- Adeiladu croesfan sebra ar fwrdd arafu ar Cardigan Street *nodwch fod hyn bellach wedi'i ddileu o'r cynigion*

Bydd y mesurau yn darparu amgylchedd mwy diogel i gerddwyr a beicio, yn enwedig i ddefnyddwyr bregus y ffyrdd a byddant yn gwella hygyrchedd i ganol y ddinas.

Rydym yn gwneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r cynllun.

O'r 350 eiddo yr ymgynghorwyd â hwy, derbyniwyd 12 ymateb unigol.

2 - O blaid y cynllun; rhoddwyd rhai sylwadau/awgrymiadau ychwanegol
10 - Yn anghytuno â'r cynigion (Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â'r groesfan sebra arfaethedig ar Cardigan Street, rydym bellach wedi hepgor y groesfan hon o'r cynllun)

Crynoir y pryderon a'r sylwadau isod mewn ysgrifen *italig*, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

O ystyried yr isod cynigir bwrw ymlaen â gweithredu'r cynllun ond nid yw'r groesfan sebra ar Cardigan Street bellach wedi'i chynnwys yn y cynigion.

Materion yn ymwneud â data cyn yr arolwg.

"Mae Pembroke Road a Radnor Road a Cardigan Street yn ffyrdd preswyl tawel. Ydych chi wedi cychwyn astudiaeth o faint o geir sy'n defnyddio pob ffordd yr awr?"

Mae arolygon cerddwyr, beiciau a cherbydau wedi'u cynnal yn ystod datblygiad y cynllun arfaethedig hwn.

Dangosodd arolygon y canlynol

Radnor Road – nifer dwyffordd 12 awr – 1010 cerbyd – cyflymderau 19mya

Pembroke Road - nifer dwyffordd 12 awr – 1206 cerbyd – cyflymderau 22mya

Materion sy'n ymwneud â chost y cynllun

Mae nifer o breswylwyr wedi holi am gost y cynllun ac a yw cyllid y cynllun yn dod o'r Cyngor.

Bydd y pecyn arfaethedig o fesurau'n helpu i greu llwybrau cerdded diogel i Ysgol Gynradd Radnor, a chreu amgylchedd priffordd diogelach trwy arafu cyflymderau cerbydau a gosod croesfannau ffurfiol i gerddwyr. Bydd hyn yn annog mwy o blant i gerdded i'r ysgol, gan gynyddu lefelau gweithgarwch a fydd yn cael manteision iechyd cadarnhaol. Mae'r cynnig hwn yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio arian gan Lywodraeth Cymru o dan eu Grant 'Llwybrau Diogel yn y Gymuned'. Nid yw'n bosibl i'r arian gael ei ddefnyddio at ddibenion eraill.

Materion yn ymwneud â cholli manau parcio ar Cardigan Street.

*"Mae gan fy ngŵr Drwydded Parcio Bathodyn Glas a byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i mi ble y bydd yn gallu parcio ger ein tŷ, ** Cardigan Street, fel mater o frys os bydd y cynlluniau hyn yn mynd rhagddynt."*

Rydym wedi cael nifer o wrthwynebiadau ynglŷn â'r groesfan arfaethedig ar Cardigan Street a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar fannau parcio. Ar ôl adolygu'r rhain, rydym wedi penderfynu dileu'r groesfan sebra o'r cynigion a byddwn yn creu cynllun Stryd Ysgol yn lle hynny.

Mae'r cynllun Stryd Ysgol yn cael ei dreialu mewn nifer o ysgolion ar draws y Ddinas ac mae'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Ni chaniateir i gerbydau modur yrru yn y Stryd Ysgol yn ystod yr oriau a nodir (8:30 - 9:15am a 2:45 - 3:45pm).

Defnyddir camerâu i orfodi cyfyngiadau, a bydd unrhyw droseddwyr yn cael dirwyon.

Bydd preswylwyr, deiliaid bathodyn glas a cherbydau brys yn gallu mynd i'r stryd bob amser. Bydd rhagor o wybodaeth am y Stryd Ysgol arfaethedig yn cael ei hanfon at breswylwyr maes o law.

Os hoffech ofyn am Gilfach Parcio i'r Anabl yn eich eiddo, ysgrifennwch at y **Tîm Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, Blwch Post 47, Caerdydd, CF11 1QB**

Bydd y newidiadau i'r cyfyngiadau parcio yn destun proses Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (GRhT) ar wahân, a bydd cyfle i breswylwyr roi sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i'r cyfyngiadau parcio fel rhan o'r broses GRhT.

Materion yn ymwneud â'r perygl o lifogydd dŵr wyneb

"Bydd y Cyngor yn ymwybodol bod ymyriadau diweddar yn Nhreganna / Pontcanna fel cyffordd bwrdd arafu a phalmentydd wedi'u lledu a gynigir wedi achosi mwy o lifogydd dŵr wyneb."

Byddwn yn cynnal arolwg draenio ac yn sicrhau bod draeniad addas yn cael ei ddarparu fel rhan o'r broses ddylunio fanwl os bydd y cynllun yn mynd yn ei flaen.

Problem - Materion Gorfodi Parcio Sifil

"Mae'r rhan fwyaf o'r problemau yn y maes hwn yn cael eu hachosi gan rieni'n cyrraedd yn hwyr mewn ceir, ac yn eu parcio'n anghyfreithlon ac yn beryglus wrth iddynt ollwng eu plant. Dewis rhatach a chyflymach yn lle'r prosiect hwn fyddai atgoffa rhieni o'u cyfrifoldebau wrth fynd â'u plant i'r ysgol."

*"Hoffwn godi pryder ynghylch y palmant yn culhau y tu allan i'm tŷ ****. Rwy'n sylweddoli mai llinellau melyn dwbl sydd eisoes tu fas. Fodd bynnag, mae angen i mi barcio yno i gymryd siopa o'r car ac wrth frwydro i gerdded gan fy mod yn anabl ac a bathodyn glas, bydd yn gwneud byw'n anodd iawn os byddwch yn cymryd y lle hwnnw i barcio am yr oriau hynny oddi wrthyf."*

Mae Swyddogion Gorfodi Sifil y Cyngor yn gorfodi'r cyfyngiadau parcio presennol yn rheolaidd, ond dylid cyfeirio unrhyw gais am orfodi'r cyfyngiadau parcio presennol at y Swyddogion Gorfodi Sifil y gellir cysylltu â hwy drwy C2C ar 029 2087 2087.

Os oes gennych fathodyn glas ar hyn o bryd, bydd y defnydd presennol o barcio yn dal i fod ar waith a rhaid defnyddio'r rheolau.

Cefnogaeth am y cynllun.

"Rydym yn cefnogi unrhyw gynlluniau ar gyfer prosiect sy'n lleihau cyflymder cerbydau ac yn gwella diogelwch cerddwyr. Mae'r cyflymder uchel y mae rhai

defnyddwyr ffyrdd yn ei gyrraedd ar y darn byr rhwng Romilly Place a Radnor Road yn peri pryder mawr ac mae'n risg i ddiogelwch"

"O'r herwydd, er bod y pryderon wedi'u hamlinellu isod am y gyffordd tabl arfaethedig, nid wyf yn ei gwrthwynebu'n llwyr"